**Gwireddu Breuddwyd**

Mae ddoe ar goll dwy'n tybed, a thithe wedi ffoi
Tu cefn i'r niwl sy'n corddi, y drws sy' wedi gloi
Fel breuddwyd aeth i angof, fel ysbryd yn y nos
Fel syniad wnaf ei ddilyn, yn ddidwyll drwy fy o's.

Dy lygaid du a welaf, dy sibrwd yma byth
Dy wen a ddaw im deffro, bob nos im canlyn byth
Rwyn cofio pob addewid, rwyn cofio bob rhyw air
Sibrydais yn dy gwmni, bob eiliad melus aur.

Sut mae gwireddu breuddwyd fel ti?

Rwyt yma yn fy nghalon, rwyt yma drwy bob dydd
O fore tan yr hwyrnos, I'm gadael i yn brudd
Os cawn rhyw ddydd gyfarfod, mi werthaf pob peth drud
Sy' gennyf yn fy meddiant, ith gael di yn fy myd.

h. Geraint Griffiths.